# Canllawiau'r Cynllun

## Bwrsariaeth Dechrau Busnes y Fro

Ysgogi menter
ac arloesedd ym
Mro Morgannwg

Bwrsariaeth Cychwyn Busnes y Fro
Vale Business Start Up Bursary
VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Bwrsariaeth Dechrau Busnes y Fro

## <u>Nodiadau ac Arweiniad i Ymgeiswyr</u>

Crynodeb


1. Beth yw Bwrsariaeth Dechrau Busnes y Fro?
2. Pwy sy'n cefnogi'r fwrsariaeth?
3. Pa fath o weithgareddau y gellir eu cefnogi?
4. Pa fath o weithgareddau na ellir eu cefnogi?
5. Pwy all wneud cais?
6. Pwy na all wneud cais am Fwrsariaeth Dechrau Busnes y Fro?
7. Faint gallaf i wneud cais amdano?
8. Sut bydd y fwrsariaeth yn cael ei thalu?
9. Allbynnau a Chanlyniadau
10. A gaf i fy monitro?
11. Pwy sy’n penderfynu?
12. A oes dyddiad cau ar gyfer ceisiadau?
13. Beth i’w wneud nesaf?


Bwrsariaeth Cychwyn Busnes y Fro
Vale Business Start Up Bursary
VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

## 1. Beth yw Bwrsariaeth Dechrau Busnes y Fro?

Mae Bwrsariaeth Dechrau Busnes y Fro yn ffynhonnell ariannu leol a sefydlwyd i ddarparu bwrsariaethau i unigolion a grwpiau sy'n bwriadu dechrau busnes neu fenter gymunedol newydd ym Mro Morgannwg.

Diben y fwrsariaeth yw hyrwyddo amodau a fydd yn helpu pobl i weithredu eu syniadau ar gyfer busnesau neu fentrau cymunedol. Gall hyn gynnwys rhoi cyngor a chymorth arbenigol i ddatblygu syniad busnes, darparu'r offer neu'r adnoddau angenrheidiol i ddechrau busnes, helpu gyda chostau lleoli busnes. ayyb.

## 2. Pwy sy'n cefnogi'r Fwrsariaeth?

Y tîm adfywio a datblygiad economaidd a arweinir gan Gyngor Bro Morgannwg mewn partneriaeth â gwahanol sefydliadau'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Nod y fenter yw rhoi'r pŵer i bobl y Fro reoli dyfodol eu cymunedau.

Mae cyllid yn galluogi'r bartneriaeth i helpu unigolion, grwpiau a chymunedau ledled y Fro. Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn darparu cymorth hanfodol ar gyfer ystod eang o brosiectau posibl a fydd o fudd i'r cymunedau hynny yn awr ac yn y dyfodol.

Y gobaith yw y bydd y fenter yn dal dychymyg pobl y Fro a, thrwy rannu gwaith, nodau a gwobrau yn y pen draw, gall unigolion drawsnewid yn grwpiau rhagweithiol a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau beunyddiol eu cymunedau.

## 3. Pa fath o weithgareddau y gellir eu cefnogi?

Mae unrhyw fath o weithgaredd sydd, ym marn y Panel Bwrsariaeth, yn helpu i drosi syniad yn fusnes neu fenter gymunedol go iawn yn gymwys i dderbyn bwrsariaeth. Gellir cefnogi ymdrechion sydd eisoes ar y gweill, yn ogystal â syniadau cwbl newydd, ar yr amod nad yw'r busnes wedi'i sefydlu eto neu wedi dechrau masnachu.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r mathau o gymorth y gellid cyflwyno ceisiadau ar eu cyfer:

- Cymorth a chyngor arbenigol i ddatblygu eich syniad busnes, e.e. ymchwil i'r farchnad, costau cyfreithiol a chyfrifyddiaeth, astudiaeth ddichonoldeb, ac ati.

- Prynu offer hanfodol sydd ei angen i weithredu'r busnes

- Cost deunyddiau marchnata i ddechrau eich busnes, e.e. taflenni, cardiau busnes, baneri, gwefan, ac ati.

- Rhentu safle/mangre addas i weithredu'r busnes ohono

- Ymweliadau â busnesau neu fentrau lleol tebyg er mwyn dysgu o'u profiadau

Cofiwch mai enghreifftiau yn unig yw'r rhain.  Rydym yn croesawu pob math o geisiadau sy'n gyson â nodau Bwrsariaeth Ysbrydoli'r Fro.

## 4. Pa fath o weithgareddau na ellir eu cefnogi?

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi rhyw syniad o'r mathau o weithgarwch **na all** Bwrsariaeth Dechrau Busnes Y Fro ei gefnogi:

- Ceisiadau am eitemau amhenodol (e.e. arian wrth gefn)
- Ceisiadau ôl-weithredol; er enghraifft, ni allem dderbyn cais mewn perthynas â gwasanaeth a ddarparwyd eisoes, neu ased a brynwyd eisoes
- Atgyweiriadau neu welliannau i dir neu adeiladau a ddefnyddir at ddibenion y busnes
- Unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â safbwyntiau neu ymgyrchoedd crefyddol neu wleidyddol
- Unrhyw weithgaredd sy'n anghyfreithlon neu sydd, ym marn y Panel, yn cefnogi torri'r gyfraith neu ymddygiad gwrthgymdeithasol,
- Unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â phornograffi, sy'n cynnig gwasanaethau rhywiol o unrhyw fath, unrhyw weithgareddau anghyfreithlon, neu unrhyw fusnes arall y bernir ei fod yn 'newydd a dadleuol' gan Gyngor Bro Morgannwg
- Mae busnesau sydd eisoes ar waith a'r rhai sy'n masnachu wedi'u heithrio. Diffinnir peidio â masnachu fel dim treuliau personol, dim gwerthiannau, dim pryniannau, dim cyflog a dim trafodion ar wahân i 'Fasnachu Prawf' i deulu a ffrindiau.
- Efallai na fydd busnesau mewn gweithgynhyrchu arfau neu bren anghynaliadwy yn berthnasol.

Ni ddyfernir unrhyw fwrsariaeth oni bai y gall yr ymgeisydd ddangos yn glir na allai'r busnes neu'r fenter fynd yn ei flaen heb y cymorth y gwnaed y cais ar ei gyfer.

## 5. Pwy all wneud cais?

Cewch chi wneud cais am Fwrsariaeth Dechrau Busnes y Fro os:

- Mae gennych syniad ar gyfer busnes neu fenter gymunedol ac mae angen cymorth arnoch i'w weithredu

- Rydych yn unigolyn neu'n grŵp o bobl 18 oed neu'n hŷn
- Rydych yn byw ym Mro Morgannwg
- Rydych am sefydlu eich busnes ym Mro Morgannwg
- Bydd y busnes neu'r fenter arfaethedig yn weithgaredd llawn amser.
- Byddai'r fwrsariaeth yn hanfodol er mwyn dechrau'r busnes (e.e. ni fyddech yn gallu dechrau'r busnes heb yr offer neu'r gwasanaethau rydych yn gwneud cais amdanynt).
- Nid oes ffynhonnell arall o arian ar gael i ariannu'r offer neu'r gwasanaethau yr ydych wedi gwneud cais amdanynt
- Mae'r busnes rydych yn bwriadu ei sefydlu yn newydd (e.e., peidio â chymryd busnes drosodd), ac yn annibynnol ar unrhyw fusnes arall
- Bydd y rhai sydd wedi rhedeg busnes o'r blaen yn gymwys i gael bwrsariaeth; fodd bynnag, byddent yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth is.
- Rydych yn cytuno i ddarparu tystiolaeth bod unrhyw fwrsariaeth a ddyfarnwyd wedi'i defnyddio at y diben a gymeradwywyd.
- Rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw grantiau neu gyllid arall yr ydych yn ymgeisio amdanynt pan fyddwch yn gwneud eich cais i ni
- Mae ceisiadau ar agor i unrhyw un dros 18 oed. Mae gan gyngor Bro Morgannwg y disgresiwn i ganiatáu cais a dyfarnu bwrsariaeth i unrhyw un o dan 18 oed os bernir bod syniad busnes neu fenter a gyflwynir yn addas ac yn arloesol. Bydd angen mentor dros 18 oed ar unrhyw un o dan 18 oed wrth gyflwyno cais. Rhaid i'r mentor fod yn rhywun a all eich helpu gyda'r trefniadau bwrsariaeth, gwasanaethu fel y prif berson cyswllt ac a fydd yn llofnodi'r ffurflen gais ac unrhyw ddogfennau eraill ar eich rhan.

**Lleoliad Preswyl - Cymhwysedd**

Nod y bwrsariaethau yw cefnogi trigolion presennol Bro Morgannwg a byddant ar gael i bobl sy'n byw ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd, ac sy'n dymuno dechrau busnes ym Mro Morgannwg.

Gall ymgeiswyr sy'n dymuno dychwelyd i Fro Morgannwg wneud cais am fwrsariaeth cyn dychwelyd ond ni chaniateir iddynt ddefnyddio'r fwrsariaeth hyd nes y darperir prawf eu bod yn byw yn yr ardal gymwys.

Gall prawf preswylio ym Mro Morgannwg gynnwys bil cyfleustodau cyfredol, trwydded yrru, neu gynnwys ar gofrestr etholiadol sy'n cadarnhau eich cyfeiriad.

## 6. Pwy na all wneud cais am Fwrsariaeth Dechrau Busnes y Fro?

Mae rheolau bwrsariaeth Dechrau Busnes y Fro yn gwahardd y canlynol rhag gwneud cais:

- Y rhai sydd y tu allan i'r terfynau daearyddol a nodir uchod
- Unrhyw un sydd â chostau cychwyn sy'n fwy na £25,000
- Cyrff statudol
- Grwpiau gwleidyddol
- Y rhai nad ydynt yn fodlon ymrwymo i gyfle cyfartal o ran iaith, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, cred neu, cyn belled ag y bo'n ymarferol, anabledd.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr drafod cynigion gyda'r Swyddog Prosiect cyn cyflwyno cais i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer cymhwysedd.

## 7. Faint gallaf i wneud cais amdano?

Gellir dyfarnu bwrsariaethau am hyd at 80% o gost y cymorth sydd ei angen.

**Bwrsariaethau Menter Llawn Amser**:

Bydd ceisiadau o hyd at £5,000 yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw un sy'n dechrau menter amser llawn. Bydd y lefel hon o fwrsariaeth yn galw am ymrwymiad hirdymor i wneud y busnes neu'r fenter gymunedol yn llwyddiant. Rhaid i fwrsariaethau menter llawn amser gynnwys tystiolaeth o gynllunio ar gyfer y dyfodol, tystiolaeth bod y fenter yn fusnes cynaliadwy, a rhagolygon ariannol manwl. Bydd angen i ymgeiswyr gynnwys cynllun busnes tair blynedd a rhagolwg ariannol i gyd-fynd â'r ffurflen gais.

Efallai y bydd y Swyddog Prosiect yn eich cynorthwyo i ddatblygu Cynllun Busnes a rhoi gwybod i chi am sefydliadau sydd ar gael i'ch helpu.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn awyddus i gefnogi ceisiadau sy'n ychwanegu gwerth at ffynonellau cyllid eraill i bobl sy'n sefydlu busnesau neu fentrau cymunedol newydd ym Mro Morgannwg.

Gofynnwn hefyd i geisiadau am nwyddau neu wasanaethau ddefnyddio cyflenwyr lleol ym Mro Morgannwg lle bo hynny'n bosibl.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i ni os ydych wedi derbyn (neu wedi gwneud cais am) unrhyw gyllid arall, neu a fyddwch yn buddsoddi eich arian eich hun. Bydd gofyn i chi brofi i'r swyddog prosiect fod gennych yr 20% o arian cyfatebol sydd ei angen.

**8. Sut bydd y fwrsariaeth yn cael ei thalu?**

Telir y fwrsariaeth cyn gynted ag y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi cwblhau pob elfen o'r broses ymgeisio, a bydd manylion y gwaith yn cael eu hegluro yn ystod cyfarfod gyda'r swyddog Prosiect dynodedig cyn cyflwyno'r cais.

Ar ôl derbyn contract wedi'i lofnodi sy'n cytuno i ddefnyddio'r fwrsariaeth at y diben y'i bwriedir, yna bydd disgwyl i'r ymgeisydd brynu'r eitem(au) neu'r gwasanaeth(au) y cytunwyd arnynt a rhoi prawf i ni o'i brynu ar ffurf derbynneb, tystiolaeth ffotograffig a rhifau cyfresol offer lle bo hynny'n berthnasol. Ar ôl derbyn hyn, telir y fwrsariaeth o fewn 28 diwrnod.

Pe bai'r broses o dalu nwyddau/gwasanaethau'n llawn gan yr ymgeisydd ymlaen llaw yn perswadio ymgeiswyr i beidio symud eu ceisiadau , proses amgen lle gellir trafod blaendaliadau fesul cam gyda'r Swyddog Prosiect yn ystod trafodaethau cychwynnol y prosiect.

Sylwch, os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, yna gallwch gynnwys TAW yn eich costau a hawlir. Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, yna rhaid eithrio TAW o'ch costau.

**9.** A gaf i fy monitro?

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn cael eich monitro er mwyn:

- Asesu a yw'r fwrsariaeth yn cael ei gwario ar beth bynnag a gymeradwywyd

- Sicrhau bod y syniad busnes neu'r fenter gymunedol yn mynd yn ei flaen yn unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd
- Gweld a yw Bwrsariaeth Busnes Newydd y Fro yn cyflawni eu diben
- Casglu gwybodaeth am y gweithgareddau a hyrwyddir drwy'r bwrsariaethau
- Asesu llwyddiannau'r cynllun Bwrsariaeth trwy farchnata dilynol ac astudiaethau achos
- Asesu ymrwymiad i'r busnes drwy gyfarfodydd dilynol

## 11. Pwy sy'n penderfynu?

Bydd Panel Bwrsariaeth Busnes y Fro yn penderfynu ar bob cais. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Sector Cyhoeddus a Phreifat. Mae penderfyniad y Panel o ran ceisiadau yn derfynol.

Mae gan ymgeiswyr hawl i gael adborth ynghylch penderfyniad y Panel, y gallant ei gael drwy wneud cais i vsubursary@valeofglamorgan.gov.uk

## 12. A oes dyddiad cau ar gyfer ceisiadau?

Mae'r Panel Bwrsariaeth yn cyfarfod bob tri mis i ystyried ceisiadau a dderbynnir. Bydd y Swyddog Prosiect yn trefnu bod rhestr o ddyddiadau'r panel ar gael. Byddwn yn ceisio prosesu eich cais o fewn deg diwrnod gwaith i benderfyniad terfynol y Panel Bwrsariaeth.

Bydd y Swyddog Prosiect yn rhoi gwybod i ymgeiswyr am y dyddiadau sydd i ddod ar gyfer derbyn ceisiadau.

Os na fyddwch yn llenwi'r holl flychau perthnasol ar y ffurflen gais, neu'n anghofio atodi unrhyw un o'r dogfennau ategol, bydd eich cais yn cael ei ddychwelyd atoch, a gofynnir i chi ddarparu'r wybodaeth neu'r dogfennau sydd ar goll. Ni fydd prosesu eich cais yn dechrau nes ein bod wedi derbyn ffurflen gais gyflawn a'r holl wybodaeth ofynnol.

## 13. Beth i'w wneud nesaf

I drafod eich cynnig ac asesu a yw eich prosiect yn gymwys, cysylltwch â:

**Chyngor Bro Morgannwg** ar **07751 645374**
neu anfonwch e-bost: VSUBursary@valeofglamorgan.gov.uk

Yna bydd angen i chi gyflwyno:-

- Ffurflen gais
- Cynllun Busnes wedi'i gwblhau, rhagolwg llif arian a ffurflen gaffael yn unol â'r canllawiau a nodir ym mhwynt 7 uchod
- Copïau o unrhyw ganiatâd cynllunio neu ganiatâd angenrheidiol arall
- Dyfyniadau ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud – cyfeiriwch at y tabl isod a sicrhewch eich bod wedi cyflwyno'r wybodaeth briodol

**Gwybodaeth Gaffael**

| **Gwerth pob eitem neu wasanaeth sydd i'w brynu** | **Camau caffael sydd eu hangen:** |
|---|---|
| **Llai na £500** | Un dyfynbris ysgrifenedig gan gyflenwr ar bapur pennawd, e-bost neu sgrinlun |
| **£500 - £5000** | Dau ddyfynbris ysgrifenedig gan gyflenwr ar bapur pennawd, e-bost neu sgrinlun<br><br>Mae'n bwysig bod yn benodol oherwydd gall pethau bach gael effaith fawr ar gost gyffredinol cynnyrch. Rhowch gymaint o fanylion â phosibl am ansawdd yn y dyfyniadau a ddarperir. |
| **Dros £5000** | Dau ddyfynbris ysgrifenedig gan gyflenwr ar bapur pennawd, e-bost neu sgrinlun<br><br>Byddwch yn benodol yn eich manyleb. Dyma'ch cyfle i osod y safon ansawdd ar gyfer y gwaith hwn. Oni ellir ei gyfiawnhau a chyda chytundeb Cyngor Bro Morgannwg, mae'n ofynnol i chi fynd gyda'r dyfynbris isaf. Gwneir hyn i sicrhau gwerth am arian. |

**Mae'n rhaid i'ch cais am grantiau gael ei gymeradwyo cyn cychwyn gwaith. Ni fydd arian grant ar gael ar gyfer gwaith a wneir cyn rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig.**

Bwrsariaeth Cychwyn Busnes y Fro
Vale Business Start Up Bursary
VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Mae’n rhaid i’r ymgeisydd gwblhau'r holl waith a gymeradwyir a chyflwyno tystiolaeth o daliad cyn y gall hawlio’r grant.

**PWYSIG**

Mae’n bwysig i chi ddarllen y nodiadau hyn a’r canllaw cam-wrth-gam cyn cwblhau’ch ffurflen gais - byddant o gymorth i chi i gwblhau eich cais yn gywir ac i'ch helpu i osgoi unrhyw oedi yn y prosesu.


Swyddfa’r Dociau **Cyngor Bro Morgannwg**
Ffordd y Mileniwm
Y Barri
CF63 4RT

**Ffôn:** **07751 645374**

**E-bost:** **agee@valeofglamorgan.gov.uk**
**VSUBursary@valeofglamorgan.gov.uk**


Bwrsariaeth Cychwyn Busnes y Fro
Vale Business Start Up Bursary
VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG